



### Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu am:-

- Yr ystod o gyfleoedd gwaith a'r mathau o gwmnïau y medrech weithio ynddynt yn lleol ac yn genedlaethol.
- Sut brofiad fyddai i weithio mewn peirianeg.
- Sut i ddefnyddio lluniau a manylebau i gynhyrchu cydrannau gan ddefnyddio offer peiriannu traddodiadol (turn, peiriannau melino, malwyr arwynebedd a pheiriannau drilio).
- Sut y ddefnyddio lluniadau a manylebau i ysgrifennu rhaglenni rhannau CNC (cyfarwyddiadau y mae peiriant wedi ei reoli gan gyfrifiadur yn eu defnyddio), i gynhyrchu cydrannau ar ystod o beiriannau CNC.
- Sut i wirio cywirdeb cydrannau.
- Y Gyfraith Iechyd a Diogelwch a materion amgylcheddol yn y gweithle.

### Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn bartneriaeth rhwng ysgolion uwchradd Arfon, Môn a Choleg Menai, yn cyfateb i un TGAU. Bydd eich ysgol yn trefnu cludiant am ddim i chi i ac o Goleg Menai a byddwch yn treulio 3 awr yr wythnos ym Mlwyddyn 10 ac 11 ar safle Bangor. Trefnir hefyd ymweliadau safle/profiad gyda phrif gyflogwyr lleol. Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ymarferol ac ystafell ddosbarth a byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn fydd yn rhaid i chi ei wneud. **Mae Mathemateg yn elfen hanfodol ac integrol o'r cwrs.**

### Beth fyddaf ei angen?

Bydd yn ofynnol i fyfyrwyr wisgo Offer Amddiffynnol Personol (OAP) tra yn y gweithdai, (ee esgidiau diogelwch ac oferôls) a ddarperir gan Goleg Menai.

### Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Byddwch yn cynhyrchu gwaith a asesir gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi ynghyd ag arholiad allanol ar gyfer uned craidd.

### Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ddiwedd y cwrs hwn, dyma rai o'r llwybrau ar gael:-

- Dilyn cymysgedd o gyrsiau galwedigaethol ac academaidd fel rhan o bartneriaeth ysgol/Coleg Menai, ee Lefel 3 BTEC Tystysgrif/Diploma Atodol/AS / Lefel A.
- Dilyn cymhwyster Peirianeg ar lefel 2 neu 3 yng Ngholeg Menai, ee Lefel 2 BTEC Diploma, Lefel 3 BTEC Diploma Atodol, Diploma neu Diploma Estynedig.
- Dilyn cymhwyster CGC mewn sector perthnasol ar lefel 2 neu 3 yng Ngholeg Menai, ee. CGC Perfformio Gweithrediadau Peirianeg.
- Dilyn cynllun prentisiaeth fodern.

Yn y pen draw, gellir cyflawni graddau a chymwysterau proffesiynol drwy ddilyn unrhyw rai o'r llwybrau yma.

• Arweinydd

• Peiriannydd Proffesiynol Tîm Peirianeg

• Peiriannydd Dylunio

Syni  
adau  
Gyrf

aol!

### Am wybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ymwelwch â'r wefan ganlynol:

<http://qualifications.pearson.com/en/qualifications/btec-firsts/engineering-2012-nqf.html>

# Peirianeg (Lefel 2)

(Dyfarniad Cyntaf BTEC Lefel 2 mewn Peirianeg)